

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 9 Ebrill 2018 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

Presennol:

Cyng. Llinos Price (*Cadeirydd*)
Cyng. Des Davies
Cyng. Peter Williams

Cyng. Auriol Williams
Cyng. Ann Stokoe
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i gyfarfod mis Ebrill. Croesawodd hefyd Mr a Mrs Phil Pritchard a'i briod, Anna, o Penyparc. Mae Mr a Mrs Pritchard yn casglu sbwriel sydd wedi ei adael ar hyd y ffyrdd ym mhentref Penyparc. Maent angen rhagor o wybodaeth sut i waredu'r sbwriel ac oes yna ganllawiau arbennig y dylid eu dilyn. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyng. Clive Davies i hel gwybodaeth am hyn gyda'r Cyngor Sir. Diolchodd y Cadeirydd i Mr a Mrs Pritchard am eu gofal o'r amgylchedd.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Eurig Lloyd, Dilwyn Jenkins, Lloyd Jenkins, Lyn Jones, Matthew Morgan, Clive Davies (aelod lleol y Cyngor Sir).
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod cofnodion mis Mawrth yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Des Davies: Ceisiadau am gymorth ariannol Gŵyl Fawr Aberteifi
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Brynteg, Ferwig:** Derbyniwyd cadarnhad bod y Cyngor Sir wedi anfon Hysbyseb Rhybudd Gorfodaeth yn dweud wrth y perchennog i anfon cais cynllunio i mewn o fewn 35 diwrnod i 13 Mawrth (17 Ebrill). Mae'r perchennog bellach wedi ymateb gan ddweud bod problem oherwydd bod y Cyngor Cymuned eisiau rhoi'r gofeb yn ôl a bod angen penodi man a lle iddi. Mae ef hefyd wedi addo rhoi cais cynllunio i mewn i'r adran. Cytunwyd trefnu cyfarfod safle gyda Mr Nick Doyle i symud ymlaen â'r gwaith.
 - (b) Cysgodfannau Bysys, Penyparc:** Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu symud y gysgodfan o'r safle.
 - (c) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru:** Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion – Cytunwyd nad oedd gwrthwynebaidd gan y Cyngor i'r argymhellion diweddaraf. (Bydd y ward etholiadol arfaethedig hon â dau aelod yn cyfuno Cymunedau Aberporth a'r Ferwig.)
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996. Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig. I'w ohirio tan dderbyn cadarnhad bod yr Hen Ysgol wedi ei phrynu oddi wrth y Cyngor Sir.

Cyngor ar Bopeth		£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi		£150.00
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion		Dim
Cangen Samariaid Aberystwyth		Dim
Gofal Mewn Galar		£50.00
Gofal Canser Tenovus		Dim
Aren Cymru		Dim

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

Cyngor ar Bopeth	101680	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101681	£150.00
Gofal Mewn Galar	101682	£50.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Peter Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe bod y Cyngor yn cyfrannu'r rhoddion uchod.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Cynllunio:

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A180246	Meusydd, Golf Course Road. "Codi estyniadau a newidiadau mewnol".	Nid oes gan y Cyngor wrthwynebiad.

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 2/4/2018

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A180291	3 plots adjacent to Madiwela, Gwbert: Erection of three dwellings – condition 2 design, condition 5 surface water, condition 9 landscaping, condition 10 ecologist, condition 11 low flying lighting, condition 12 bat box	Nid oes gan y Cyngor mewn egwyddor unrhyw wrthwynebiad, gyda'r amod bod y tai yn cael eu defnyddio fel tai gwyliau yn hytrach na'u gwerthu fel ail gartrefi.

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Mawrth 2018)	101675	£308.77
Costau'r Clerc (Mawrth 2018)	101676	£48.60
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mawrth 2018)	101677	£77.20
SSE Swalec: Trydan yr Ystafelloedd Newid	101678	£48.96
John Morris: Gwaith cyffredinol yn y gymuned	101679	£198.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill: Cyflwynwyd adroddiad ariannol am y flwyddyn 2017-18 i'r Cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad ariannol. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith prydlon gyda'r cyfrifon.

Oherwydd problemau gweinyddol yn swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru yng Nghaerdydd, nid yw'r dogfenni perthnasol wedi cyrraedd i gyflawni'r archwiliad.

9. Gohebiaeth:

1	Cyngor Sir Ceredigion (Huw Williams)	Perchnogion Cŵn Anghyfrifol: Argymhellion i gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru cŵn.	Cytunwyd cefnogi'r cynllun mewn egwyddor.
2	Elan City	Arwyddion rheoli cyflymdra ar y ffordd	Nodwyd
3	Cyngor Sir Ceredigion (Adain cau'r ffordd)	Cau'r ffordd yn Ferwig, 22-23/3/18: Atgyweirio'r gwasanaeth dŵr.	Mae copi wedi ei flaenyrru i'r cynghorwyr ar 22/3/18.
4	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	"Trawsnewid ein gwasanaeth iechyd": Ymgynghoriad ar wasanaethau gofal iechyd. Cynigiwyd dau le i bob Cyngor Tref neu Gymuned. Cynhelir y cyfarfod ar ddydd Llun 30 Ebrill, 2018 yn Neuadd Goffa Felinfach.	Mae'r Cyng. Llinos Price wedi cynnig mynychu'r cyfarfod. Mae angen un cynrychiolydd ychwanegol.
5	Cyngor Cymuned Llandudoch	Cais i'r cyngor ymuno mewn grŵp i gynnal a chadw manau chwarae i blant.	Mae'r Cyngor yn bles gyda'r gwasanaeth cynnal a chadw sydd mewn bodolaeth.

10. Materion Eraill:

- (a) **Mainc yng Nghae Gwyrdd, Penyparc:** Mae Mr John Morris wedi symud y fainc o'r safle am ei bod mewn cyflwr peryglus.
- (b) **Hob wedi ei adael ger croesffordd Pengarn:** Y Clerc i anfon yr wybodaeth i'r Cyngor Sir.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

(Derbyniwyd gwybodaeth am y materion isod yn ei absenoldeb.)

- (a) **Place Plans:** Mae'r Cyng. Davies yn ymchwilio i mewn i gefnogaeth oddi wrth Leader CSC i arwain ac i drefnu'r cynllun gyda mewnbwn oddi wrth bartneriaid.
- (b) **"Hyfforddiant CLIC":** Disgwylir dyddiad hyfforddi i glercod ym mis Mai.
- (c) **Tai Ceredigion – Muriau tai Heol y Felin:** Mae'r Cyng. Davies wedi cysylltu â chwmni Tai Ceredigion Cyf. sydd wedi addo cyflawni'r gwaith ar furiau'r tai sydd mewn cyflwr gwael.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 14 Mai 2018 (Cyfarfod Blynyddol) yn Hen Ysgol y Ferwig am **7.00** o'r gloch.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2018

3 Mehefin (YB) 2 Gorffennaf (F) 3 Medi (YB) 2 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 5 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 9 April 2018 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Present

Cllr Llinos Price (*Chairperson*)
Cllr Des Davies
Cllr Peter Williams

Cllr Auriol Williams
Cllr Ann Stokoe
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. **Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the April meeting. She also welcomed Mr and Mrs Phil Pritchard and his wife, Anna. Mr and Mrs Pritchard collect rubbish left on the roadside in the Penyparc area and wish to obtain directives regarding the safe disposal of the waste. The Clerk was asked to contact Cllr Clive Davies to obtain the County Council's policy on this matter. The Chair thanked Mr and Mrs Pritchard for their dutiful care of the environment.
2. **Apologies for absence:** Councillors Eurig Lloyd, Dilwyn Jenkins, Lloyd Jenkins, Lyn Jones, Matthew Morgan, Clive Davies (local County Council member).
3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Auriol Williams that the minutes of the March meeting be recorded as correct.
4. **Declaration of personal interests:** Cllr Des Davies (*see item 6, Grants*).
5. **Matters arising:**
 - (a) **Brynteg, Ferwig:** Confirmation has been received that the County Council has issued an Enforcement Order Notice informing the owner to apply for planning within 35 days from 13 March (17 April). The owner has responded stating that the problem of reinstating the memorial stone in its original location was ongoing. He has also pledged to follow the correct planning procedure. The Clerk was asked to contact Mr Nick Doyle to arrange a site meeting to move the matter forward.
 - (b) **Penyparc bus shelter:** The County Council intends to remove the shelter.
 - (c) **Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion** – Ferwig Community Council has no objection to the latest recommendations to change the local boundary. (A two member electoral ward would serve the new ward of Aberporth and Y Ferwig, thus combining the communities of Aberporth and Y Ferwig.)
6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig.
(*Payment has been delayed until confirmation is received that the Old School has been bought from the County Council.*)

Citizens' Advice Bureau		£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi		£150.00
Ceredigion YFC		Nil
Samaritans Aberystwyth		Nil
Cruse Bereavement Care		£50.00
Tenovus Cancer Care		Nil
Citizens' Advice Bureau	101680	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101681	£150.00
Cruse Bereavement Care	101682	£50.00

It was proposed by Cllr Peter Williams and seconded by Cllr Ann Stokoe that the above donations be paid.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Planning:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Community Council's Observations</i>
A180246	Meysydd, Golf Course Road "Erection of extensions and internal alterations"	Council has no objections.

Observations forwarded to Ceredigion County Council on 2/4/2018

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>Community Council's Observations</i>
A180291	3 plots adjacent to Madiwela, Gwbert: Erection of three dwellings – condition 2 design, condition 5 surface water, condition 9 landscaping, condition 10 ecologist, condition 11 low flying lighting, condition 12 bat box	In principle, the Council has no objection provided that the houses are used as holiday lets as opposed to being sold as second homes.

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerks wages (March 2018)	101675	£308.77
Clerk's Expenses (March 2018)	101676	£48.60
HM Customs & Expenses (Clerk's Income Tax March 2018)	101677	£77.20
SSE Swalec: Electricity for Ystafell Berkley changing rooms	101678	£48.60
John Morris: General work in the community	101679	£198.00

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Peter Williams that the above bills be paid.

Other Financial Matters: The end of year financial report for 2017-18 was presented to the Council.

It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Des Davies that the Council approves the report. The Clerk was thanked for her prompt and efficient production of the final financial report.

Due to administrative problems the delivery of documents from the Wales Audit Office has been delayed.

9. Correspondence:

1	Ceredigion County Council. (Huw Williams)	Irresponsible Dog Ownership. Suggestions for the introduction of a permitting or registration type scheme for dogs.	The Council supports the suggestions in principle.
2	Elan City	Radar Speed signs brochure	Noted
3	Ceredigion County Council (Road Closure)	Closing road at Ferwig, 22-23/3/18: Repair Water Service.	Noted
4	Hywel Dda University Health Board.	"Our big NHS changes." Consultation on healthcare services in Hywel Dda University Health Board. Two council members have been invited to the Town and Community Council's event to be held on Monday, 30 April, 2018 at Felinfach Memorial Hall.	Cllr Llinos Price agreed to attend the meeting.
5	Cyngor Cymuned Llandudoch	Invitation to the Council to join forces to form a maintenance contract for the care of playing fields.	Members agreed that the present system of maintaining the playing fields is adequate.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Other Matters:

- (a) **Bench at Cae Gwyrdd Penparc:** Mr John Morris has removed a bench from Cae Gwyrdd.
- (b) **Hob abandoned at the Pengarn lay-by:** The Clerk to request the County Council to remove the hob.

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies

(the following matters were received in his absence)

- (a) **Place Plans:** Cllr Davies stated that funding and support from CCC Leader programme is available to facilitate and bring a single Place Plan together with input from stakeholders in the community.
- (b) **“CLIC training”:** The training sessions for clerks will be organised in the month of May.
- (c) **Penparc Tai Ceredigion Garden Walls:** Cllr Davies has contacted an officer from Tai Ceredigion Cyf. who stated that the work to repair the crumbling walls will be completed as soon as possible.

12. Date of next meeting: 14 May 2018 (Annual General Meeting) at Ystafell Berkley, Penparc at **7.00pm**

Dates of Council Meetings for 2018:

3 June (F) 2 July (YB) 3 September (F) 1 October (YB) 3 November (F) 3 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting